# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion y cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd
ar lein drwy Zoom, nos Lun, 16 Mai 2022 am 7 yr hwyr.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** BH, JF, LJ, EABT, JAR (Cadeirydd), RWO (clerc) Gwilym Jones (GJ) Ken Taylor (KT)

Ymddiheuriadau: Dim.

Estynnwyd croeso i'r cynghorwyr newydd gan y cadeirydd.

**2. Datgan Diddordeb:** Dim.

**3. Cyf-Ethol Cynghorwyr.**

Cyf-etholwyd BH & EABT fel cynghorwyr.

**4. Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd.**

Etholwyd JAR fel Cadeirydd, EJ fel Is-Gadeirydd.

**5. Derbyn Cofnodion Ebrill 2022**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir, EABT yn cynnig, LJ yn eilio.

**6. Materion yn codi**

6.1 Cadarnhawyd sgwrs gyda CSYM ynglyn a'r ganolfan. CSYM i gadarnhau pa ddogfennau bydd eu hangen i'r clerc.

6.2 Cadarnhawyd nad oedd wedi bod yn bosib cael sgwrs gyda cyn-gontractwr torri gwair y fynwent i drafod y cyn-gontract.

6.3 Cytunwyd i yrru llythyr i'r Cynghorwr Llinos Medi Huws yn nodi prydeon ac anfodlonrwydd y Cyngor Cymuned ynglyn a statws facebook grwp cymunedol yn enllibio'r Cyngor Cymuned.

**7. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.**

7.1 Dim.

**Clerc/ Clerk:**
**Ms. Rhian Wyn Owen,**
**Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.**

**Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940**
**Symudol /mobile: 07802 754 187**
**cyngorcymunedbodedern@outlook.com**

**8. Gohebiaeth i'w adolygu.**

Dim.

**9. Taliadau i'w gwneud –** Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol. (*Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog)*

EABT yn cynnig, BH yn eilio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.1 Leigh Thomas | Gwaith Torri | £300.00 | Siec 300011 |
| 9.2 Anglesey Computer Solutions | Gwefan | £342.00 | Siec 300012 |

**10. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y cynghorwyr (Unrhyw Fater Arall)**

10.1 Cwestiwn gan y Caedirydd ynglyn a chynrychiolydd CSYM yn mynychu cyfarfodydd–
GJ a KT i drafod.

10.2 Y Cadeirydd wedi derbyn cwynion ynglyn a sbwriel ar y lon o Dalar tuag at y pentref. Y clerc i hysbysu CSYM.

10.3 Cwynion wedi eu derbyn ynglyn a chyflwr Lon Dywyll– gan ei fod mewn cyflwr mor ddrwg mae'n dechrau cael ei ddefnyddio fel man "fly tipping" Y clerc i gysylltu a CSYM.

10.4 Y Cadeirydd yn nodi dylid ystyried tacluso cefn y fynwent, efallai y ddwy ochor gyda'u gilydd i geisio cadw costau i lawr.

10.5 Nodwyd fod ROSPA yn gwenud ymchwiliad blynyddol o'r parc, ond nodwyd efallai dylid gwneud ymholiadau os bydd angen archwliad mwy rheolaidd? Y clerc i gysylltu a glercod eraill.

10.6 Nodwyd fod y Cyngor Cymuned yn dilyn cyf-ethol yn parhau gyda seddi gwag. Y Cadeirydd wedi gwneud ymholiadau anffurfiol a rhai unigolion ond heb ymateb pendant eto.

**11. Dyddiad cyfarfod nesaf.**

27/6/2022.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com